# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 7fed, 2024 yn Neuadd Bentref Rhydlewis.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Teifi Evans

Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones

Cyng. Mark Davies Cyng. Osian Davies

Cyng. Rob Jones

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng Carol Davies, Cyng. Llyr Evans, Cyng Maldwyn Lewis a'r Cyng.Emyr Jones

**2. Datgan Diddordeb –** Y Cyng.Teifi Evans - Cynllunio

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**3.1 -** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Rhagfyr a cytunodd y Cyng.Sharon Thomas eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng.Ceri Jones

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 -** Mae'r Cyng.Sharon Thomas yn dal i ddisgwyl clywed am y De-fib yng Nghroeslan, ond mae'r un sbâr yno dros dro.

**4.2** –Mae Carwyn o Boomerang i ffwrdd am gyfnod yn dilyn genedigaeth ei blentyn cyn y Nadolig, felly dim gwybodaeth bellach am arwydd T Llew Jones eto.

**4.3** – Llwybrau Cerdded – Mae'r Clerc wedi cysylltu am brisiau, ac yn disgwyl ymateb. Gan fod Teifi Trees yn brysur iawn ar hyn o bryd, penderfynwyd gofyn am bris wrth Bois t Mowo.

**4.4** – Mae'r blychau halen yn barod ac wedi eu llenwi – bydd Cynghorwyr yn trefnu eu dosbarthu dros y dyddiau nesaf.

**5. Cyrsiau**

**5.1** –Mae'r Cynghorwyr Sian Williams a Mark Davies yn mynychu dau gwrs cyn diwedd y mis.

**6. Materion y Cynghorydd Sir -** DIM

**7. Gohebiaeth**

**7.1** –Ymgynghoriad Paresept Dyfed Powys – y Cadeirydd wedi llenwi ac wedi rhannu ar Facebook y Cyngor

**7.2** - Ynni Cenedlaethol – 3 cyhoeddiad

**7.3** –E-Byst Cyngor i'r Cynghorwyr – Y Clerc wedi cysylltu gyda Un Llais Cymru, ac wedi derbyn ymateb gyda 3 opsiwn.

**8. Cynllunio**

**8.1 –** Fferm Troedyraur – adeiliadu Sied i ddal peiriannau.

Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad, ond angen dilyn canllawiau'r Cyngor.

**9. Praesept**

**9.1 –** anfon copi o'r cyllid at y Cynghorwyr

**10. Lamp Bwlchygroes**

**10.1 –** Byddai yn fuddiol cael lamp stryd ger y Festri, oherwydd i ni sylwi ei bod yn dywyll iawn yno y noson bu'r Canu Carolau. Bydd angen i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor i weld beth yw'r camau priodol ar gyfer gwneud cais.

**11 – Meinciau**

**11.1 -** Wedi bod yn edrych ar y fainc yn Brongest – mae ychydig wedi pydru ar un gornel ond dal tipyn o fywyd ar ol ynddi. Byddwn yn cadwllygaid arni .

**12 – RAAC**

**12.1 –** Mai 2024 Arolwg Llywodraeth Cymru, nid oedd gennym asedau oedd yn berthnasol.

**13 – Grant**

**13.1 –** Rhai ceisiadau wedi dod i law a caiff rhain eu trafod yn ein cyfarfod nesaf.

**14. – Cyllid**

Cytunodd pawb oedd yn bresennol i dalu'r sieciau. Arwyddwyd hwy gan y Cyng.Sharon Thomas a'r Cyng Mark Davies.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** | **£ 371.52** | **001792** |
| **HMRC –** | **£93.00** | **001791** |
| **Neuadd Coedybryn -** | **£60.00** | **001793** |
| **Costau Noson Canu Carolau -** | **£19.25** | **001794** |

**15. Materion Ardal**

**15.1** – **Rhydlewis** - Yn dilyn y storm ddiweddar, mae coed anferth wedi syrthio ac mae rhai gwreiddiau allan ar y ffordd ( gyferbyn â Hawen Hall ). Mae llawer o goed ar y ffordd rhwng Rhydlewis a Gwernant wedi eu difrodi.

**15.2** – Mae dŵr ofnadwy wedi dod i lawr rhiw Blaenwern ac unman ganddo i fynd. Gall hyn fod yn beryglus iawn adeg yma o'r flwyddyn gyda'r tywydd rhewllyd. Mae llawer mwy o ddŵr wedi casglu ar y rhiw yma ers codi'r clawdd ar dop y rhiw.

**15.3** – Cafwyd disgo Nadolig gyda lluniaeth yn Neuadd Rhydlewis.  Bu'n noson llewyrchus a llawer o ymdrech wedi rhoi i'r digwyddiad.

**15.4 – Brongest -** Y broblem ddŵr yn parhau.

**15.5** – Mae rhai goleuadau o'r coed nadolig wedi difrodi gyda'r storm ( 4 set angen yn newydd ). Cysylltu gyda Solar Centre i weld a oes ganddynt ddêl adeg yma o'r flwyddyn.

**15.6** –**Bwlchygroes** - Cyflymder y ffordd yn achosi gofid  (fel y gwelwyd noson y canu carolau ) ac mae tipyn o ddŵr yn casglu ger yr arhosfan bws.

**15.7** – **Croeslan** - Mae angen atgyweirio yr arhosfan bws – ond nid ein cyfrifoldeb ni yw hwn gan nad yw yn un o'n asedau.

**15.8** – **Maesllyn** - Mae Mark o Maesllyn wedi cynnig gofalu am y goleuadau o'r goeden Nadolig tan bydd eu hangen eto.

**15.9** – **Ffostrasol** – Mae llawer o ddŵr yn dal i ddod o gyfeiriad Plwmp ac yn achosi llifogydd.

**15.10** – Hyfryd oedd gweld cynifer o blant ifanc yn cadw'r traddodiad o gasglu calennig yn fyw yn y pentref eleni eto.

**15.11** – **Coed-y-bryn** -Tipyn o ddŵr yn casglu ar y ffordd o Benrhiwpal tuag ar Coedybryn.

**15.12** – Cafwyd Taith Tractorau llwyddiannus iawn unwaith eto eleni ar Ddydd San Steffan yn cychwyn o Goedybryn gyda 62 tractor ar y daith. Codwyd yr arian at elusen cancr.

**16. Cyfarfod Nesaf**

**16.1 –** Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol ar Chwefror 4ydd am 7:30yh.

**16.2** – Gan nad oedd dim ymhellach i'w drafod, tynnodd y Gadeiryddes y cyfarfod i ben am 9:25yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

------------------------------------------------------------ -----------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad